

Minutes of the Monthly Meeting of Mumbles Community Council held on 8 October 2024 at 6.30pm (Hybrid Meeting at the Ostreme Centre and via Teams)

Members Present: Cllrs Martin O'Neill (Chair), Rob Marshall, Francesca O'Brien, Ian Scott, Sara Keeton, Carrie Townsend Jones, Pamela Erasmus, Angela O'Connor, Tim Zhou, Helen Nelson, Rhian Evans and Phil Keeton.

Officers Present: Paul Beynon – RFO, Diane Athernought – Customer Services Officer and Ian Hughes – CSO

CO2410-01 Apologies for Absence: Cllrs Hannah Hunter and Will Thomas (Vice-Chair),

CO2410-02 Declarations of Interest:
Cllr Ian Scott and CSO stated that they had a personal interest with the grant application in connection with Oystermouth Historical Association as they are a member and chair respectively of that society (**CO2410-13** refers).

CO2410-03 Public Participation
Members of the public may make representations, answer questions and give evidence at this meeting in respect of the business on the agenda.

No members of the public were present and there were no representations from the public prior to the meeting commencing.

CO2410-04 Minutes of the Monthly Meeting held on 10 September 2024
To approve the minutes of the Monthly Meeting held on 10 September 2024 as a true record.

RESOLVED to approve the minutes of the Monthly Meeting held on 10 September 2024 as a true record.

Cllr Tim Zhou arrived at the meeting at 6.33pm

CO2410-05 Clerk's Report

The RFO, Paul Beynon stated that the Clerk, had returned to work on a phased basis on 7th October 2024 with a view to returning full time after four weeks.

The RFO also outlined that just over £6,600 had been awarded by SCC in grant money for an additional heritage-led event, 'Merry Mumbles' which is due to coincide with the Christmas Lights being illuminated in Mumbles.

CO2410-06 Chair's Report

The Chair, Cllr O'Neill read out his report which has been circulated to all Council members. Within his report Cllr O'Neill highlighted the success of a recent well attended food festival at Oystermouth Castle and how much he had enjoyed a recent guided tour of Oystermouth Castle at the invitation of The Friends of Oystermouth Castle. Cllr O'Neill reflected on how fortunate we are to have such a significant and popular structure in our surroundings.

Cllr O'Neill paid tribute to Cllr Emilie Cox, following her resignation, who had made a valuable contribution to MCC. Following the departure of two councillors, the Council has been left quite depleted particularly in the running of some committees. When vacancies on the council arise there are procedures to follow, announcing the vacancy and giving local people the opportunity to call an election, if they so wish. Whilst stressing the duties placed upon the Council, Cllr O'Neill noted the significant resource implications with the last election costing £10,000.

Two such elections if called would cost a significant sum and Cllr O'Neill reminded councillors that if elections were not called the positions could be filled through the 'co-option' process, stressing however that it is important that the correct processes are abided to.

Cllr O'Neill also reminded councillors that our staff work diligently to service the council and that they have a duty not to make their duties any more onerous than they need to be. To this end can councillors strive to ensure that agenda items are submitted in a timely manner and that chairs and committee members ensure business is dealt with promptly and that meetings do not over run without significant reason.

Following the reading of the report by Cllr O'Neill a number of councillors reaffirmed the view of the chair that holding elections would be to the financial detriment of the Council but that the correct procedures must be followed. The cost of any elections would be funded through the Contingency Fund.

Cllr Helen Nelson arrived at the meeting at 6.40pm

Financial Report for September 2024

C02410-07

RECOMMENDED that

The payments made by the RFO in September 2024 are retrospectively approved.
The budget monitoring report to 31/08/2024 is approved

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to councillors. The RFO provided a brief outline on the reports and offered to take questions in relation to these reports. No questions were raised.

Reports attached at **Annex A**

RESOLVED to retrospectively approve payments made by the RFO for September 2024.

RESOLVED to approve the budget monitoring report to 31/08/2024.

Review of Grants Policy – Applications from National Charities

C02410-08

To review how applications for grants from national charities are considered and to update the Grants Policy if necessary.

The RFO, Paul Beynon outlined how following a recommendation from the Finance and Compliance Committee he and the Chair, Cllr O'Neill had researched the options in relation to MCC supporting national charities through grants. In particular whether supporting national charities fell outside the remit of grant funding by a community council.

The RFO had sought advice from One Voice Wales who provided a report which was circulated to councillors prior to the meeting. In essence the scope for funding is quite extensive although providing money outside of the UK is not permitted.

The Chair, Cllr O'Neill had contacted other comparable community councils and although no definitive guidelines are in place the general consensus amongst other councils is that any grant provided should benefit those within the community in question.

A lengthy debate ensued amongst councillors who made a number of wide ranging comments and proposals, including the following points:-

- Grant applications should be for local causes only
- Granting to national charities would result in a 'flood' of applications some of whom would be professional applicants
- In the event of money being provided to national charities a cap should be made either to the grant in question or an annual cap to all national charities due to finite budget available.
- The relationship of national charities working locally was discussed e.g. RNLI and The Scout Association where valuable work is done locally but the money is donated to a national body. In addition other charities such as cadets within the armed services have registered autonomous charities locally.
- A further 'blurring' of the issue involved local activities covering the area beyond MCC for example where parts of Gower such as Pennard and Bishopston are included within applications and additional grants to other councils are being

- It was proposed that a flow chart be designed to assist in local needs being addressed through the use of pertinent question to applicants.

RESOLVED: That the RFO assisted by councillors will work on the above observations and provide a proposal for Full Council at their November Meeting.

Report from Chair of Finance and Compliance Committee

C02410-09 Cllr Rob Marshall outlined that the main focus of the previous meeting revolved around the issue of donating to national charities which had been discussed under agenda item **C02410-08**. Other matters will be discussed under the committee's recommendations, agenda **C02410-13** refers.

Report from Chair of Community and Social Development Committee

C02410-10 Cllr Ian Scott stated that issues concerning the Community Asset Transfer relating to Hennebont Gardens are subject to a recommendation agenda item **C02410-13** refers. Additionally Cllr Scott outlined developments relating to exercise equipment on Mumbles Front and within Underhill Park, where information is being sought from SCC and budget proposal forms and being prepared. Additionally quotes in relation to fencing and re-surfacing of Langland Tennis Courts are in hand.

Report from Chair of Environmental Committee

C02410-11 Cllr Carrie Townsend Jones had provided a written report which had been circulated to councillors prior to the meeting. Again recommendations made by the committee are detailed within agenda item **C02410-13**. Highlights of the report include planning permission for the gazebo in Clyne Gardens being approved by SCC, liaison with Friends of Clyne Gardens continue. Approval for The Keep Wales Tidy Hub at Ostreme has been achieved, with a launch date to be fixed, grant approval has also been obtained for local footpaths including Washinghousebrook Woods. In addition four budget proposal forms have been submitted to date.

Report from Chair of Culture, Tourism and Communications Committee

C02410-12 Cllr Angela O'Connor again outlined that recommendations made by the committee are detailed within agenda item **C02410-13**.

Committee Recommendations

C02410-13

To consider the recommendations to Council made by Committees at their September meetings.

The Chair outlined the following recommendations from The Finance and Compliance Committee held on 16 September 2024

1. Cardiac Risk in the Young (CRY) Grant Application

Grant Application for £5,000 to contribute towards the screening of 100 young persons aged between 14 and 35 in relation to identifying heart-related issues.

The committee recommended that Full Council make a decision in relation to this grant application and that advice be sought through Full Council for guidance on how MCC should contribute to national charities in relation to future grant applications.

RESOLVED: that as these recommendations relate to a national charity any decision should be deferred until appropriate guidelines have been obtained as detailed under agenda item **C02410-08**

2. St John's Ambulance Gower Division Grant Application

Grant Application for £5,000 to contribute towards the purchase of vital equipment for volunteers and includes expenditure for training

The committee recommended that Full Council make a decision in relation to this grant application. and that advice be sought through Full Council for guidance on how MCC should contribute to national charities in relation to future grant applications.

RESOLVED: that as these recommendations relate to a national charity any decision should be deferred until appropriate guidelines have been obtained as detailed under agenda item **C02410-08**

3. Kids Cancer Charity Grant Application

Grant Application for £1,000 to support families in Mumbles who have children diagnosed with cancer respite breaks.

A discussion again took place in relation to the role of MCC in relation to national charities albeit that two families have been identified within The MCC area.

RESOLVED not to approve a grant application for £1,000 to support families in Mumbles who have children diagnosed with cancer respite breaks.

4. Sunday Tea Room Grant Application

Grant Application for £425, to provide elderly residents of MCC with monthly Sunday afternoon tea.

During the discussion on whether this application related to a national charity, Cllr Townsend Jones outlined that although the application relates to a national charity, this only acts as a 'sign-post' for individuals to contract the local charity in question.

RESOLVED: that using the **Budget FC1**, the amount of £425 be granted to provide elderly residents of MCC with monthly Sunday afternoon tea.

5. Oystermouth Historical Association Grant Application

Grant Application for £913.97, to provide equipment for the digitalisation of The Oystermouth Historical Association's Archive

During the discussion on the above The CSO and Cllr Rob Marshall left the meeting between 7.33pm and 7.36pm.

RESOLVED: that using the **Budget FC1**, the amount of £913.97 be granted for the digitalisation of The Oystermouth Historical Association's Archive.

The Chair outlined the following recommendation from The Community & Social Committee held on 18 September 2024

Update re- Community Asset Transfer of Hennebont Gardens.

The committee recommended that Full Council make a collective decision on whether a Community Asset Transfer for Hennebont Gardens should be progressed.

A discussion took place on the relationship between SCC and MCC for on-going maintenance of Hennebont Gardens. The general consensus of the committee was that further information was required.

RESOLVED: that MCC should not progress a Community Asset transfer in relation to Hennebont Gardens.

Cllr Rob Marshall left the meeting between 7.38pm and 7.40pm.

The Chair outlined the following recommendations from The Environmental Committee held 23 September 2024

1. Promoting volunteer days

A questionnaire prepared by Robert Hernando, The Environmental Officer had been circulated to committee members prior to the meeting.

It was recommended to Full Council that Robert Hernando be authorised to carry out a survey in relation to volunteer recruitment, using the form previously circulated.

RESOLVED: that Robert Hernando be authorised to carry out a survey in relation to volunteer recruitment, using the form previously circulated.

2. Environmental Green Fair

The Chair of the committee, Cllr Townsend Jones outlined how a stand organised by MCC at the forthcoming Environmental Fair could promote Plastic Free Mumbles, Mumbles Buzz in Bloom and other relevant events. The event is due to take place on Saturday 23rd and Sunday 24th November 2024 at the National Waterfront Museum, Swansea.

RESOLVED: to approve the provision of a stall at the forthcoming Environmental Green Fair as detailed above

Cllr Pamela Erasmus arrived at the meeting at 7.43pm

The Chair outlined the following recommendations from The Culture, Tourism and Communication Committee held on 25 September 2024

1. Calendar of Events

Discussion took place over benefits of having a long-term calendar of events, which would allow for preparations to be made including the booking of facilities and costings to be made.

During the discussion that followed councillors raised concerns that they might lose oversight of events taking place, lose budgetary discipline and that all committees should be reflected in the calendar.

The Chair, Cllr O'Neill outlined that the calendar would not undermine the decision making of Full Council but was only intended to facilitate the organisation necessary for Claire Anderson to prepare for events in a timely fashion. In addition The RFO reminded Full Council that any decision making would be dependent upon budget availability.

Cllr O'Neill proposed that the calendar of events be agreed until the end of the financial year (March 2025) and that the issue be brought back to Full Council in April 2025 for further consideration.

RESOLVED: That the calendar of events and associated delegated powers to arrange such events as outlined by the Culture, Tourism and Communication Committee be agreed until the end of the financial year (March 2025) and that the issue be brought back to Full Council in April 2025 for further consideration.

Cllr Rhian Evans left the meeting at 8.05pm

2. Mumbles Folk and Blues Festival Update

Recommended that Full Council approve a Mumbles Folk and Blues Festival on Sunday 4th October 2025 with delegated powers to arrange the event being provided to the Culture, Tourism and Communication Committee. Financing the event will be subject to budgetary availability.

During the discussion Cllr Jarvis outlined how the event would coincide with Mumbles Octoberfest and that no financial support from MCC was anticipated due to sponsorship and the self-funding of the venues in question.

RESOLVED: That the Mumbles Folk and Blues Festival take place on Sunday 4th October 2025 with delegated powers to arrange the event being provided to the Culture, Tourism and Communication Committee be approved.

3. VE 80th Anniversary Celebrations

Claire Anderson had prepared a budget proposal form which had been circulated to committee members prior to the meeting. It was suggested to hold an event to commemorate the 80th anniversary of the Victory in Europe on Thursday 8th May 2025 at The Ostreme Centre. The event will be hosted by Rob Pendry with wartime music being played and afternoon tea being provided. Together with decorations and other ancillary expenditure the overall cost is expected to be in the region of £1,840.

RESOLVED: To approve a VE 80th Anniversary Celebration on Thursday 8th May 2025 at the Ostreme Centre at a cost of up to £2,000 subject to budget availability.

4. Newsletter

The Chair, Cllr O'Neill set out the options of retaining the current system of circulating printed newsletters as opposed to moving towards the letters being digitally circulated.

It was noted that elderly residents may potentially miss out on information through lack of internet access and it was suggested that a limited number of newsletter be made available at key locations such as cafes, libraries, doctors surgeries, allowing elderly residents access to them. In addition, newsletters could be made available at Ostreme.

RESOLVED: That approval be given to greater use of a digital newsletter, to be used in conjunction with a limited distribution of a printed newsletter.

5. Halloween Disco for 11-17yrs at CU

Claire Anderson had prepared a budget proposal form which had been circulated to committee members prior to the meeting. Claire outlined that the age group in question was not well catered for within MCC and that this disco would be a 'pilot' for other such events including a Christmas Disco. Funding would be covered through the use of the current underspent budget and the cost of venue, snacks and DJ would amount to £565.

RESOLVED: To accept the recommendation that a Halloween Disco take place as set out above on Tuesday 29th October 2024.

The cost of the event will be £565 which will be funded through an underspent budget in 2024/25. .

6. Honour of Mumbles

A discussion took place on how best to honour local persons who have made a valuable contribution to the area

RESOLVED: That a policy for honouring local persons within MCC for their notable contribution to the area be devised and brought back to Full Council for consideration.

Exclusion of Press and Public

C02410-14

In accordance with the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded for the following items of business due to the confidential nature of the business to be transacted.

RESOLVED that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting.

Underhill

C02410-15

Discussion on progress at Underhill.

RESOLVED that MCC accept the recommendations previously submitted in relation to the development of a sports bar in the Pavilion subject to MCA agreeing to pay all legal fees incurred by MCC in relation to the recent amendments proposed.

Meeting Finished at 8.21pm

Next meeting: Full Council 12th November 2024

ANNEX A

Electronic and Cheque Payments for Retrospective Approval

September 2024

| | | | | |
|----------|--|----------|-------|----------|
| 02/09/24 | Swansea Council – Ostreme Trade Waste September 2024 | 15.60 | 0.00 | 15.60 |
| 02/09/24 | Dwr Cymru Welsh Water – Ostreme Water September 2024 | 47.50 | 0.00 | 47.50 |
| 02/09/24 | Nisbets - Flask | 36.48 | 7.29 | 43.77 |
| 03/09/24 | Lidl – Boarspit Bash Supplies | 18.58 | 0.00 | 18.58 |
| 03/09/24 | B & M – Boarspit Bash Supplies | 14.98 | 0.00 | 14.98 |
| 03/09/24 | Home Bargains – Boarspit Bash Supplies | 36.21 | 0.00 | 36.21 |
| 03/09/24 | M&S – Coffee with Friends 03/09/2024 | 14.05 | 0.00 | 14.05 |
| 09/09/24 | M&S – Coffee with Friends 10/09/2024 | 20.15 | 0.00 | 20.15 |
| 11/09/24 | Louise Davies – Ostreme Relief Cleaner | 160.00 | 0.00 | 160.00 |
| 11/09/24 | Penguin Recruitment – Temporary Admin Assistant W/C 02/09/2024 | 376.80 | 75.36 | 452.16 |
| 13/09/24 | Banner Business Solutions – Desk Diaries | 17.39 | 3.48 | 20.87 |
| 13/09/24 | Banner Business Solutions – Flipchart Easel | 49.00 | 9.80 | 58.80 |
| 13/09/24 | Banner Business Solutions – Desk Diary | 3.50 | 0.70 | 4.20 |
| 13/09/24 | Zombie Plastics CIC – Family Fun Day Recycling Workshop | 400.00 | 0.00 | 400.00 |
| 13/09/24 | Mr Superwhippy – Boarspit Bash Ice Cream | 187.50 | 0.00 | 187.50 |
| 13/09/24 | Mumbles Rangers – Family Fun Day Football Coaching | 50.00 | 0.00 | 50.00 |
| 13/09/24 | K Evans Electrical – Replacement Strip Light Ostreme Centre | 100.00 | 20.00 | 120.00 |
| 13/09/24 | Charlotte Perkins – Boarspit Bash Baby Ballet Session | 50.00 | 0.00 | 50.00 |
| 13/09/24 | Diane Athernought – Office Milk 02/09 | 1.20 | 0.00 | 1.20 |
| 13/09/24 | Diane Athernought – Office Milk 09/09 | 1.20 | 0.00 | 1.20 |
| 13/09/24 | Diane Athernought – Blue Tac | 6.69 | 0.00 | 6.69 |
| 13/09/24 | In House Ents – Boarspit Bash | 315.00 | 63.00 | 378.00 |
| 13/09/24 | Medieval Gower School Project - Grant | 2,000.00 | 0.00 | 2,000.00 |
| 13/09/24 | Penguin Recruitment – Temporary Admin Assistant W/C 09/09/2024 | 376.80 | 75.36 | 452.16 |
| 13/09/24 | Open Spaces Society – Membership 2024/25 | 45.00 | 0.00 | 45.00 |
| 16/09/24 | M&S – Coffee with Friends 17/09/2024 | 21.45 | 0.00 | 21.45 |
| 16/09/24 | Giff Gaff – RFO Mobile Phone September 2024 | 5.00 | 1.00 | 6.00 |

| | | | | |
|----------|---|-----------|--------|-----------|
| 17/09/24 | Newhall Janitorial – Ostreme Supplies | 41.21 | 8.24 | 49.45 |
| 17/09/24 | Gower Unearthed – Story of Mumbles August 2024 | 1,100.00 | 0.00 | 1,100.00 |
| 20/09/24 | Buzzy Bee Face Painting – Boarspit Bash | 110.00 | 0.00 | 110.00 |
| 20/09/24 | Penguin Recruitment – Temporary Admin Assistant W/C 16/09/2024 | 376.80 | 75.36 | 452.16 |
| 20/09/24 | Diane Athernought – Office Milk 16/09 | 1.20 | 0.00 | 1.20 |
| 20/09/24 | Cllr Rhian Evans – Boarspit Bash Milk | 3.38 | 0.00 | 3.38 |
| 20/09/24 | Diane Athernought – Office Milk 19/09 | 0.85 | 0.00 | 0.85 |
| 20/09/24 | Claire Anderson – Boarspit Bash Supplies | 4.99 | 0.00 | 4.99 |
| 20/09/24 | Claire Anderson – Boarspit Bash Supplies | 4.92 | 0.00 | 4.92 |
| 20/09/24 | Claire Anderson – Boarspit Bash Supplies | 28.99 | 0.00 | 28.99 |
| 20/09/24 | Claire Anderson – Boarspit Bash Supplies | 8.49 | 0.00 | 8.49 |
| 20/09/24 | CIA Fire and Security – Langland Tennis Courts Gate Repair | 185.00 | 37.00 | 222.00 |
| 20/09/24 | Dwr Cymru Welsh Water – Norton Nature Reserve Water August 2024 | 5.96 | 0.00 | 5.96 |
| 20/09/24 | PHS Group - Personnel Hygiene Contract | 87.04 | 17.41 | 104.45 |
| 23/09/24 | Barclaycard Statement September 2024 – see below | 426.93 | 0.00 | 426.93 |
| 24/09/24 | M&S – Coffee with Friends 24/09/2024 | 19.15 | 0.00 | 19.15 |
| 25/09/24 | Staff Salaries – September 2024 | 13,880.11 | 0.00 | 13,880.11 |
| 25/09/24 | Staff Telephone Allowances – September 2024 | 50.00 | 0.00 | 50.00 |
| 26/09/24 | St John Ambulance – First Aid Training | 290.00 | 58.00 | 348.00 |
| 26/09/24 | St John Ambulance – First Aid Training | 290.00 | 58.00 | 348.00 |
| 26/09/24 | St John Ambulance – First Aid Training | 290.00 | 58.00 | 348.00 |
| 26/09/24 | Apogee - Photocopier | 223.75 | 44.75 | 268.50 |
| 26/09/24 | Circus Eruption – Family Fun Day Workshop | 380.00 | 0.00 | 380.00 |
| 26/09/24 | SA1 Creative – Multimedia Consultant September 2024 | 700.00 | 140.00 | 840.00 |
| 26/09/24 | PPL PRS – Boarspit Bash Music Licence | 252.57 | 50.52 | 303.09 |
| 26/09/24 | Npower – Electricity West Cross Christmas Tree August 2024 | 55.21 | 2.76 | 57.97 |
| 26/09/24 | Jargon 3 – Ostreme H & S Consultant August 2024 | 242.50 | 0.00 | 242.50 |
| 26/09/24 | NSP HR Solutions – Retainer August 2024 | 325.00 | 65.00 | 390.00 |
| 26/09/24 | Banner Business Solutions – Paper Cups Family Fun Days | 8.98 | 1.80 | 10.78 |
| 26/09/24 | Banner Business Solutions – Paper Cups Family Fun Days | 35.55 | 7.11 | 42.66 |

| | | | | |
|----------|--|------------------|---------------|------------------|
| 26/09/24 | Banner Business Solutions – Pens | 21.98 | 4.40 | 26.38 |
| 26/09/24 | SA1 Solutiuons – IT Support | 39.65 | 7.93 | 47.58 |
| 27/09/24 | Total Energies – Ostreme Gas August 2024 | 55.81 | 2.79 | 58.60 |
| 27/09/24 | HMRC – Payroll Deductions September 2024 | 5,241.93 | 0.00 | 5,241.93 |
| 27/09/24 | Linden Church - West Cross Youth Club Annual Grant 2024/25 | 5,000.00 | 0.00 | 5,000.00 |
| 27/09/24 | Cllr Phil Keeton – West Cross Warm Hub 20/09 | 14.18 | 0.00 | 14.18 |
| 27/09/24 | Cllr Phil Keeton – West Cross Warm Hub 06/09 | 17.78 | 0.00 | 17.78 |
| 27/09/24 | Cllr Phil Keeton – West Cross Warm Hub 20/09 | 4.20 | 0.00 | 4.20 |
| 27/09/24 | Cllr Phil Keeton – West Cross Warm Hub 02/08 | 27.03 | 0.00 | 27.03 |
| 27/09/24 | Fresh Creative – Cllr Helen Nelson Electric Boxes | 960.00 | 0.00 | 960.00 |
| 27/09/24 | OCA – Broadband and Phone September 2024 | 72.29 | 0.00 | 72.29 |
| 27/09/24 | Penguin Recruitment – Temporary Admin Assistant W/C 23/09/2024 | 376.80 | 75.36 | 452.16 |
| 27/09/24 | Swansea Council – Pension Contributions September 2024 | 4,129.39 | 0.00 | 4,129.39 |
| 30/09/24 | UK Debt Management Office – Underhill Loan Repayment | 48,694.32 | 0,00 | 48,694.32 |
| 30/09/24 | Curry’s – E&SEO Mobile Phone | 115.83 | 23.17 | 139.00 |
| 30/09/24 | All Saints Church – Lease Q2 2024/25 | 3,750.00 | 0.00 | 3,750.00 |
| | Total | 92,319.85 | 993.59 | 93,313.44 |

Barclaycard Purchases – September 2024 Statement

| | £ |
|----------------------------------|---------------|
| Adobe - Adobe Creative | 56.98 |
| Microsoft Corp – Online Services | 199.76 |
| Microsoft Corp – Online Services | 147.00 |
| Breathe – HR System | 21.60 |
| Google – Storage | 1.59 |
| Total | 426.93 |

| | | |
|-----------|--|-----------------|
| 2- | Income – September 2024 | £ |
| | Boels Rental – Generator Refund | 150.00 |
| | Nisbets – Flask Refund | 43.76 |
| | Ostreme Centre – Income September 2024 | 3,428.88 |
| | Total | 3,622.64 |

| | | |
|------------|---------------------------------------|-------------------|
| 3 – | Bank Balances as at 01/10/2024 | £ |
| | Current Account | 14,504.06 |
| | Savings Account | 403,012.47 |
| | Total | 417,516.53 |

Budget Monitoring to 31/08/2024

The Budget Monitoring reports to 31/08/2024 are summarised in the table below.

| Service | Budget £ | Actual £ | +/- Under/Over £ |
|-----------------------------------|---------------------|---------------------|-----------------------------|
| Community & Social Development | 151,200 | 57,272 | 93,928 |
| Culture, Tourism & Communications | 89,450 | 34,541 | 54,909 |
| Environmental | 43,500 | -4,733 | 48,233 |
| Finance & Compliance | 170,600 | 40,805 | 129,795 |
| Ostreme Centre | 32,900 | 7,308 | 25,592 |
| General Fund | 48,700 | 26,032 | 22,668 |
| Office Costs | 2,850 | 2,140 | 710 |
| Payroll | 255,100 | 98,201 | 156,899 |
| Contingency | 69,150 | 0 | 69,150 |
| Total | 863,450 | 261,566 | 601,884 |

Actual expenditure to 31/08/2024 represents 22.2% of the annual budget for 2024/25.

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned y Mwmbwls a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2024 am 6.30pm (Cyfarfod Hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams)

Aelodau yn bresennol: Y cynghorwyr Martin O'Neill (Cadeirydd), Rob Marshall, Francesca O'Brien, Ian Scott, Sara Keeton, Carrie Townsend Jones, Pamela Erasmus, Angela O'Connor, Tim Zhou, Helen Nelson, Rhian Evans a Phil Keeton.

Swyddogion yn bresennol:: Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Diane Athernought – Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

Ymddiheuriadau am absenoldeb: Y cynghorwyr Hannah Hunter a Will Thomas (Is-Gadeirydd)

Datganiadau o fuddiant:

Dyweddodd y Cynghorydd Ian Scott a'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau fod ganddynt fuddiant personol yn y cais am grant mewn cysylltiad â Chymdeithas Hanes Ystumllwynarth gan eu bod yn aelod ac yn gadeirydd y gymdeithas honno yn y drefn honno (gweler [C02410-13](#)).

Cyfranogiad y cyhoedd

Gall aelodau'r cyhoedd wneud sylwadau, ateb cwestiynau a rhoi tystiolaeth yn y cyfarfod hwn mewn perthynas â'r materion ar yr agenda.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ac nid oedd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 10 Medi 2024

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 10 Medi 2024 fel rhai cywir.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 10 Medi 2024 fel rhai cywir.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Tim Zhou y cyfarfod am 6.33pm.

Adroddiad y Clerc

Dywedodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, fod y Clerc wedi dychwelyd i'r gwaith yn raddol ar 7 Hydref 2024 gyda'r bwriad o dychwelyd i weithio'n llawn amser ar ôl pedair wythnos.

Amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol hefyd fod ychydig dros £6,600 wedi'i ddyfarnu gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe mewn arian grant ar gyfer digwyddiad treftadaeth ychwanegol, 'Merry Mumbles', sydd i fod i gyd-fynd â chynnau goleuadau'r Nadolig yn y Mwmbwls.

Adroddiad y Cadeirydd

Darllenodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Neill, ei adroddiad, oedd wedi'i ddsbarthu i holl aelodau'r cyngor. Yn ei adroddiad, amlygodd y Cynghorydd O'Neill lwyddiant gŵyl fwyd ddiweddar, lle roedd llawer yn bresennol, yng Nghastell Ystumllwynarth a chymaint yr oedd wedi mwynhau taith dywys ddiweddar o amgylch Castell Ystumllwynarth ar wahoddiad Cyfeillion Castell Ystumllwynarth. Myfyriodd y Cynghorydd O'Neill ar ba mor ffodus ydym i gael adeiledd mor arwyddocaol a phoblogaidd yn ein hamgylchedd.

Talodd y Cynghorydd O'Neill deyrnged i'r Cynghorydd Emilie Cox, yn dilyn ei hymddiswyddiad, a oedd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i Gyngor Cymuned y Mwmbwls. Yn dilyn ymadawiad dau gynghorydd, mae'r cyngor wedi'i adael â rhengoedd eithaf tenau, yn enwedig o ran rhedeg rhai pwyllgorau. Pan fydd lleoedd gwag ar y cyngor yn codi, mae gweithdrefnau i'w dilyn, sef cyhoeddi'r swydd wag a rhoi cyfle i bobl leol alw etholiad os dymunant. Wrth bwysleisio'r dyletswyddau sydd ar y cyngor, nododd y Cynghorydd O'Neill y goblygiadau adnoddau sylweddol, gyda'r etholiad diwethaf yn costio £10,000.

Byddai dau etholiad o'r fath, pe byddent yn cael eu galw, yn costio swm sylweddol ac atgoffodd y Cynghorydd O'Neill y cynghorwyr, pe na bai etholiadau'n cael eu galw, y gellid llenwi'r swyddi drwy'r broses 'gyfethol', gan bwysleisio serch hynny ei bod yn bwysig cadw at y prosesau cywir.

Atgoffodd y Cynghorydd O'Neill y cynghorwyr hefyd fod ein staff yn gweithio'n ddiwyd i wasanaethu'r cyngor a bod dyletswydd arnynt i beidio â gwneud eu dyletswyddau yn fwy beichus nag sydd angen iddynt fod. I'r perwyl hwn, gofynnir i'r cynghorwyr ymdrechu i sicrhau bod eitemau ar yr agenda yn cael eu cyflwyno mewn modd amserol a bod cadeiryddion ac aelodau pwyllgor yn sicrhau yr ymdrinnir â busnes yn brydlon ac nad yw cyfarfodydd yn gor-reddeg heb reswm pwysig.

Yn dilyn darllen yr adroddiad gan y Cynghorydd O'Neill, ailddatganodd nifer o gynghorwyr farn y Cadeirydd, sef y byddai cynnal etholiadau yn niweidiol yn ariannol i'r cyngor ond bod yn rhaid dilyn y gweithdrefnau cywir. Byddai cost unrhyw etholiadau yn cael ei hariannu drwy'r gronfa wrth gefn.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Helen Nelson y cyfarfod am 6.40pm.

Adroddiad Ariannol ar gyfer Medi 2024

ARGYMHELLIR

Bod y taliadau a wnaed gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ym mis Medi 2024 yn cael eu cymeradwyo'n ôl-weithredol. Bod adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Awst 2024 yn cael ei gymeradwyo.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i'r cynghorwyr yn flaenorol. Darparodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol amlinelliad byr o'r adroddiadau a chynigiodd ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiadau hyn. Ni nodwyd unrhyw gwestiynau.

Mae'r adroddiadau wedi'u hatodi yn **Atodiad A**.

PENDERFYNWYD cymeradwyo taliadau a wnaed gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar gyfer mis Medi 2024 yn ôl-weithredol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2024.

Adolygu'r polisi grantiau – ceisiadau gan elusennau cenedlaethol

Adolygu sut mae ceisiadau am grantiau gan elusennau cenedlaethol yn cael eu hystyried a diweddarau'r polisi grantiau os oes angen.

Amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, sut, yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd, yr oedd ef a'r Cadeirydd, y Cynghorydd O'Neill, wedi ymchwilio i'r opsiynau mewn perthynas â Chyngor Cymuned y Mwmbwls yn cefnogi elusennau cenedlaethol drwy grantiau. Yn arbennig, a oedd cefnogi elusennau cenedlaethol y tu allan i gylch gorchwyl cyllid grant gan gyngor cymuned.

Roedd y Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi gofyn am gyngor gan Un Llais Cymru, a ddarparodd adroddiad a ddsbarthwyd i gynghorwyr cyn y cyfarfod. Yn ei hanfod, mae'r cwmpas ar gyfer cyllid yn eithaf helaeth, er na chaniateir darparu arian y tu allan i'r DU.

Roedd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Neill, wedi cysylltu â chynghorau cymuned tebyg eraill ac, er nad oes canllawiau pendant yn eu lle, y consensws cyffredinol ymhlith cynghorau eraill yw y dylai unrhyw grant a ddarperir fod o fudd i'r rhai hynny o fewn y gymuned dan sylw.

Cafwyd dadl faith ymhlith cynghorwyr, a wnaeth nifer o sylwadau a chynigion eang, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:-

- Dylai ceisiadau grant fod ar gyfer achosion lleol yn unig.
- Byddai rhoi grant i elusennau cenedlaethol yn arwain at 'lif' o geisiadau a byddai rhai ohonynt yn ymgeiswyr proffesiynol.
- Os bydd arian yn cael ei ddarparu i elusennau cenedlaethol, dylid gosod cap naill ai ar y grant dan sylw neu gap blynyddol i bob elusen genedlaethol oherwydd y gyllideb gyfyngedig sydd ar gael.
- Trafodwyd perthynas elusennau cenedlaethol sy'n gweithio'n lleol, e.e. RNLI a Chymdeithas y Sgowtiaid, lle mae gwaith gwerthfawr yn cael ei wneud yn lleol ond mae'r arian yn cael ei roi i gorff cenedlaethol. Yn ogystal, mae elusennau eraill fel cadetiaid o fewn y lluoedd arfog wedi cofrestru elusennau ymreolaethol yn lleol.

- Roedd cymhlethdod pellach yn ymwneud â gweithgareddau lleol yn cwmpasu'r ardal y tu hwnt i Gyngor Cymuned y Mwmbwls, er enghraifft lle mae rhannau o Benrhyn Gŵyr fel Pennard a Llandeilo Ferwallt wedi'u cynnwys mewn ceisiadau ac mae grantiau ychwanegol i gynghorau eraill yn cael eu gwneud.
- Cynigiwyd bod siart llif yn cael ei ddylunio i helpu i fynd i'r afael ag anghenion lleol drwy ddefnyddio cwestiynau perthnasol i ymgeiswyr.

PENDERFYNWYD: Y bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol gyda chymorth cynghorwyr yn gweithio ar y sylwadau uchod ac yn darparu cynnig ar gyfer y cyngor llawn yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd

Amlinellodd y Cynghorydd Rob Marshall fod prif ffocws y cyfarfod blaenorol yn ymwneud â rhoi i elusennau cenedlaethol, a drafodwyd o dan eitem **C02410-08** ar yr agenda. Bydd materion eraill yn cael eu trafod o dan argymhellion y pwyllgor, sef eitem **C02410-13** ar yr agenda.

Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol

Dywedodd y Cynghorydd Ian Scott fod materion yn ymwneud â throsglwyddo ased cymunedol, sef Gerddi Hennebont, yn destun argymhelliad y mae eitem **C02410-13** ar yr agenda yn cyfeirio ato.

Yn ogystal, amlinellodd y Cynghorydd Scott ddatblygiadau yn ymwneud ag offer ymarfer corff ar lan y môr yn y Mwmbwls ac o fewn Parc Underhill, lle mae gwybodaeth yn cael ei cheisio gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac mae ffurflenni cynnig cyllideb yn cael eu paratoi. Yn ogystal, mae dyfynbrisiau mewn llaw mewn perthynas â ffensio ac ailwynebu cyrtiau tenis Langland.

Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd

Roedd y Cynghorydd Carrie Townsend Jones wedi darparu adroddiad ysgrifenedig a oedd wedi'i ddsbarthu i'r cynghorwyr cyn y cyfarfod. Unwaith eto, manylir ar yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgor yn eitem **C02410-13** ar yr agenda. Mae uchafbwyntiau'r adroddiad yn cynnwys caniatâd cynllunio ar gyfer y gasebo yng Ngerddi Clun yn cael ei gymeradwyo gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe, ac mae'r cysylltiad â Chyfeillion Gerddi Clun yn parhau. Mae canolfan Cadwch Gymru'n Daclus yn Ostreme wedi'i chymeradwyo, gyda dyddiad lansio i'w bennu, a chymeradwywyd grant hefyd ar gyfer llwybrau troed lleol, gan gynnwys Llwybr Washinghouse Brook.

Yn ogystal, mae pedair ffurflen cynnig cyllideb wedi'u cyflwyno hyd yma.

Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu

Amlinellodd y Cynghorydd Angela O'Connor eto fod yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgor wedi'u nodi yn eitem **C02410-13** ar yr agenda.

Argymhellion y pwyllgor

Ystyried yr argymhellion i'r cyngor a wnaed gan bwyllgorau yn eu cyfarfodydd ym mis Medi.

Amlinellodd y Cadeirydd yr argymhellion a ganlyn gan y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024

6. Cais Grant Risg Gardiaidd i'r Ifanc Cais grant am £5,000 i gyfrannu at sgrinio 100 o bobl ifanc rhwng 14 a 35 oed mewn perthynas ag adnabod materion yn ymwneud â'r galon.

Argymhellodd y pwyllgor fod y cyngor llawn yn gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r cais hwn am grant ac y dylid ceisio cyngor trwy'r cyngor llawn am arweiniad ar sut y dylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls gyfrannu at elusennau cenedlaethol mewn perthynas â cheisiadau grant yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: gan fod yr argymhellion hyn yn ymwneud ag elusen genedlaethol y dylid gohirio unrhyw benderfyniad hyd nes y ceir y canllawiau priodol fel y manylir arnynt o dan eitem **C02410-13** ar yr agenda.

7. Cais grant Rhanbarth Gŵyr Ambiwllans Sant Ioan

Cais am grant o £5,000 i gyfrannu at brynu offer hanfodol ar gyfer gwirfoddolwyr, yn cynnwys gwariant ar gyfer hyfforddiant.

Argymhellodd y pwyllgor fod y cyngor llawn yn gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r cais hwn am grant ac y dylid ceisio cyngor drwy'r cyngor llawn i gael arweiniad ar sut y dylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls gyfrannu at elusennau cenedlaethol mewn perthynas â cheisiadau grant yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: gan fod yr argymhellion hyn yn ymwneud ag elusen genedlaethol y dylid gohirio unrhyw benderfyniad hyd nes y ceir y canllawiau priodol fel y manylir arnynt o dan eitem **C02410-13** ar yr agenda.

8. Cais am grant Kids Cancer Charity

Cais am grant o £1,000 i gefnogi teuluoedd yn y Mwmbwls sydd â phlant sydd wedi cael diagnosis o ganser er mwyn iddynt gael seibiannau.

Cafwyd trafodaeth eto mewn perthynas â rôl Cyngor Cymuned y Mwmbwls mewn perthynas ag elusennau cenedlaethol, er bod dau deulu wedi eu hadnabod o fewn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

PENDERFYNWYD peidio â chymeradwyo cais am grant o £1,000 i gefnogi teuluoedd yn y Mwmbwls sydd â phlant sydd wedi cael diagnosis o ganser gyda seibiannau.

9. Cais am Grant Ystafell De Dydd Sul Cais am grant am £425 i ddarparu te prynhawn dydd Sul misol i drigolion oedrannus Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

Yn ystod y drafodaeth ynghylch a oedd y cais hwn yn ymwneud ag elusen genedlaethol, amlinellodd y Cyngorydd Townsend Jones, er bod y cais yn ymwneud ag elusen genedlaethol, ei fod ond yn gweithredu i 'gyfeirio' unigolion at yr elusen leol dan sylw.

PENDERFYNWYD: gan ddefnyddio **Cyllideb FC1**, y dylid caniatáu'r swm o £425 i ddarparu te prynhawn dydd Sul misol i drigolion hŷn Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

10. Cymdeithas Hanes Ystumllwynarth Cais grant am £913.97 i ddarparu offer ar gyfer digideiddio archif Cymdeithas Hanes Ystumllwynarth.

Yn ystod y drafodaeth ar yr uchod, gadawodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau a'r Cyngorydd Rob Marshall y cyfarfod rhwng 7.33pm a 7.36pm.

PENDERFYNWYD: gan ddefnyddio **Cyllideb FC1**, y dylid caniatáu'r swm o £913.97 ar gyfer digideiddio archif Cymdeithas Hanes Ystumllwynarth.

Amlinellodd y Cadeirydd yr argymhelliad a ganlyn gan y Pwyllgor Cymunedol a Chymdeithasol a gynhaliwyd ar 18 Medi 2024

Diweddariad ynghylch throsglwyddo asedau cymunedol Gerddi Hennebont.

Argymhellodd y pwyllgor fod y cyngor llawn yn gwneud penderfyniad ar y cyd ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â throsglwyddo ased cymunedol Gerddi Hennebont.

Cafwyd trafodaeth ar y berthynas rhwng Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Cymuned y Mwmbwls ar gyfer cynnal a chadw parhaus Gerddi Hennebont. Consensws cyffredinol y pwyllgor oedd bod angen rhagor o wybodaeth.

PENDERFYNWYD: na ddylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls symud ymlaen gyda throsglwyddo ased cymunedol Gerddi Hennebont.

Gadawodd y Cyngorydd Rob Marshall y cyfarfod rhwng 7.38pm a 7.40pm.

Amlinellodd y Cadeirydd yr argymhellion a ganlyn gan y Pwyllgor Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 23 Medi 2024

1. Hyrwyddo diwrnodau gwirfoddolwyr

Roedd holiadur a baratowyd gan Robert Hernando, Swyddog yr Amgylchedd, wedi'i ddsbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod.

Argymhellwyd i'r cyngor llawn y dylid awdurdodi Robert Hernando i gynnal arolwg mewn perthynas â recriwtio gwirfoddolwyr, gan ddefnyddio'r ffurflen a ddsbarthwyd eisoes.

PENDERFYNWYD: awdurdodi Robert Hernando i gynnal arolwg mewn perthynas â recriwtio gwirfoddolwyr, gan ddefnyddio'r ffurflen a ddsbarthwyd eisoes.

2. Ffair Werdd Amgylcheddol

Amlinellodd Cadeirydd y pwyllgor, y Cynghorydd Townsend Jones, sut y gallai stondin a drefnwyd gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls yn y Ffair Amgylcheddol sydd i ddod hyrwyddo Mwmbwls Di-blastig, Swyn y Mwmbwls yn ei Blodau a digwyddiadau perthnasol eraill. Mae'r digwyddiad i fod i gael ei gynnal ar ddydd Sadwrn 23 a dydd Sul 24 Tachwedd 2024 yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo darparu stondin yn y Ffair Werdd Amgylcheddol sydd i ddod fel y manylir uchod. Cyrhaeddodd y Cynghorydd Pamela Erasmus y cyfarfod am 7.43pm.

Amlinellodd y Cadeirydd yr argymhellion a ganlyn gan y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu a gynhaliwyd ar 25 Medi 2024

7. Calendr o ddigwyddiadau

Cafwyd trafodaeth ynghylch manteision cael calendr hirdymor o ddigwyddiadau, a fyddai'n caniatáu i baratodau gael eu gwneud, gan gynnwys archebu cyfleusterau a phennu costau.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cododd cynghorwyr bryderon y gallent golli goruchwyliaeth o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal a cholli disgyblaeth gyllidebol, ac y dylai pob pwyllgor gael ei adlewyrchu yn y calendr.

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Neill, na fyddai'r calendr yn tanseilio penderfyniadau'r cyngor llawn ond ei fod wedi'i fwriadu i hwyluso'r sefydliad, sy'n angenrheidiol er mwyn i Claire Anderson baratoi ar gyfer digwyddiadau mewn modd amserol. Yn ogystal, atgoffodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyngor llawn y byddai unrhyw benderfyniad yn dibynnu ar argaeledd cyllideb.

Cynigiodd y Cynghorydd O'Neill y dylid cytuno ar y calendr digwyddiadau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol (Mawrth 2025) a bod y mater yn cael ei ddwyn yn ôl i'r cyngor llawn ym mis Ebrill 2025 i'w ystyried ymhellach.

PENDERFYNWYD: Cytuno ar y calendr o ddigwyddiadau a'r pwerau dirprwyedig cysylltiedig i drefnu digwyddiadau o'r fath fel yr amlinellwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu tan ddiwedd y flwyddyn ariannol (Mawrth 2025) a bod y mater yn cael ei ddwyn yn ôl i'r cyngor llawn ym mis Ebrill 2025 ar gyfer ystyriaeth bellach. Gadawodd y Cynghorydd Rhian Evans y cyfarfod am 8.05pm.

8. Diweddariad ar Wyl Werin a Blŵs y Mwmbwls

Argymhellwyd bod y cyngor llawn yn cymeradwyo Gŵyl Werin a Blŵs y Mwmbwls ar ddydd Sul 4 Hydref 2025 gyda phwerau dirprwyedig i drefnu'r digwyddiad yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu. Bydd ariannu'r digwyddiad yn amodol ar argaeledd cyllideb.

Yn ystod y drafodaeth, amlinellodd y Cynghorydd Jarvis sut y byddai'r digwyddiad yn cyd-fynd ag Oktoberfest y Mwmbwls ac na ragwelir unrhyw gymorth ariannol gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls oherwydd nawdd a hunanariannu'r lleoliadau dan sylw.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Gŵyl Werin a Blŵs y Mwmbwls ddydd Sul 4 Hydref 2025 gyda phwerau dirprwyedig i drefnu'r digwyddiad yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu.

9. Dathliadau 80 mlynedd ers Diwrnod VE

Roedd Claire Anderson wedi paratoi ffurflen cynnig cyllideb a oedd wedi'i dosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Awgrymwyd cynnal digwyddiad i goffáu 80 mlynedd ers y Fuddugoliaeth yn Ewrop ddydd Iau, 8 Mai 2025, yng Nghanolfan Ostreme. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal gan Rob Pendry gyda cherddoriaeth amser rhyfel yn cael ei chwarae a the prynhawn yn cael ei ddarparu. Ynghyd ag addurniadau a gwariant atodol arall, disgwylir y bydd y gost gyffredinol oddeutu £1,840.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Dathliad Pen-blwydd VE yn 80 ar ddydd Iau, 8 Mai 2025, yng Nghanolfan Ostreme am gost o hyd at £2,000, yn amodol ar argaeledd cyllideb.

10. Cylchlythyr

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cyngorydd O'Neill, yr opsiynau ar gyfer cadw'r system bresennol o gylchredeg cylchlythyrau argraffedig yn hytrach na symud tuag at ddsbarthu'r llythyrau'n ddigidol.

Nodwyd y gallai trigolion oedrannus gollu gwybodaeth o bosibl oherwydd diffyg mynediad i'r rhyngwyd ac awgrymwyd y dylid darparu nifer gyfyngedig o gylchlythyrau mewn lleoliadau allweddol megis caffis, llyfrgelloedd a meddygfeydd, gan ganiatáu i drigolion oedrannus gael mynediad atynt. Yn ogystal, gallai cylchlythyrau fod ar gael yng Nghanolfan Ostreme.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo mwy o ddefnydd o gylchlythyr digidol, i'w ddefnyddio ar y cyd â dosbarthiad cyfyngedig o gylchlythyr argraffedig.

11. Disgo Calan Gaeaf i blant 11-17oed yn Cu Mumbles

Roedd Claire Anderson wedi paratoi ffurflen cynnig cyllideb a oedd wedi'i dosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Amlinellodd Claire nad oedd darpariaeth dda ar gyfer y grŵp oedran dan sylw yng Nghyngor Cymuned y Mwmbwls ac y byddai'r disgo hwn yn 'beilot' ar gyfer digwyddiadau eraill o'r fath, gan gynnwys disgo Nadolig. Byddai'r cyllid yn cael ei dalu drwy ddefnyddio tanwariant y gyllideb bresennol a byddai cost lleoliad, byrbrydau a DJ yn dod i £565.

PENDERFYNWYD: Derbyn yr argymhelliad y dylid cynnal Disgo Calan Gaeaf fel y nodir uchod ddydd Mawrth, 29 Hydref 2024.

Cost y digwyddiad fydd £565, a ariennir drwy danwariant y gyllideb, yn amodol ar argaeledd y gyllideb.

12. Anrhydedd y Mwmbwls

Cafwyd trafodaeth ar y ffordd orau i anrhydeddu pobl leol sydd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r ardal.

PENDERFYNWYD: Dyfeisio polisi ar gyfer anrhydeddu pobl leol o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls am eu cyfraniad nodedig i'r ardal a'i ddwyn yn ôl i'r cyngor llawn i'w ystyried.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

Yn unol â darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cynigir bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd ar gyfer yr eitem o fusnes ganlynol oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

PENDERFYNWYD, oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod.

Ataliwyd y Rheolau Sefydlog a daeth recordiad y cyfarfod i ben am 8.17pm.

Underhill

Trafodaeth ar gynnydd yn Underhill.

PENDERFYNWYD bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn derbyn yr argymhellion a gyflwynwyd yn flaenorol mewn perthynas â datblygiad Underhill ar yr amod bod Cymdeithas Gymunedol y Mwmbwls yn cytuno i dalu'r holl ffioedd cyfreithiol a dynnwyd gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls mewn perthynas â'r diwygiadau diweddar a gynigiwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.21pm.

Cyfarfod nesaf: Cyngor llawn 14 Tachwedd 2024
Cyngor 8 Hydref 2024